



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 357 – 14 Mehefin 2012
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2012.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 356

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 356.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig.

RTS – Nododd HJ iddo dderbyn gwahoddiad i fod yn ymddiriedolwr i'r RTS. Roedd yn falch o gael y gwahoddiad ac mae'n dda eu bod yn cynnwys S4C, a'r cenhedloedd a'r rhanbarthau yn gyffredinol. Roedd wedi derbyn y gwahoddiad.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad gan gyfeirio at yr isod yn benodol.

Datganiad o Bwrpas - Roedd y Tîm Rheoli wedi derbyn adborth ers y cyfarfod diwethaf ac wedi addasu'r datganiad. Ceir y fersiwn ddiweddaraf yn Atodiad A'r adroddiad. Bwriedir cyflwyno'r datganiad i'r staff ym mis Medi yn dilyn yr ail-strwythuro.

Clirlun - Mae S4C wedi dod i gytundeb â'r BBC, C4 ac Ofcom i ddirwyn y gwasanaeth i ben ar 2 Rhagfyr eleni. Mae cyhoeddiad buan yn bwysig ac awgrymwyd y gellid cyfeirio ato yn yr adroddiad blynyddol gan roi'r cyd-destun yn llawn.

Heno - Nododd IHJ fod y newidiadau i raglen **Heno** wedi digwydd. Teimlwyd bod y rhaglen yn gweithio'n well ac mae'r ymateb ar Gwifren a thrydar yn bositif iawn. Mae GLL yn gweithio'n agos iawn â Tinopolis i hyrwyddo'r rhaglen.

BBC Alba, TG4 a RTE - Roedd IHJ a DRh wedi ymweld â BBC Alba a chawsant gyfarfod buddiol. Byddant yn ymweld â TG4 ddydd Mawrth nesaf.

Ail-strwythuro - Roedd IHJ wedi rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Personél. Bydd wyth hysbyseb swydd yn ymddangos heddiw. Mae'r trafodaethau gyda BECTU yn parhau a gobeithir cwblhau'r broses erbyn diwedd Gorffennaf.

4. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys

Cyflwynodd DRh ei adroddiad oedd yn cynnwys yr isod:

- Roedd wedi cael cyfarfod buddiol â Radio Cymru i drafod cydweithio.
- Dywedodd fod siâp amserlen newydd S4C yn cynnig cydbwysedd, ac roedd rhaglenni'r slot 10 o'r gloch yn fwy addas i'r slot.
- Mae'r swyddogion yn cydweithio â Boomerang i newid y cydbwysedd o fewn rhaglenni plant **Stwnsh** er mwyn cynnwys mwy o raglenni dogfennol o safon.
- Dywedodd fod Avanti'n gweithio ar **Eisteddfod yr Urdd** eleni gyda mwy o oriau. Mae'r ochr dechnegol ar y cyd gyda'r Urdd yn gweithio'n dda iawn. Cafwyd rhai sylwadau gan yr Aelodau ond ar y cyfan teimla DRh fod y rhaglenni yn gynhwysfawr ac yn safonol. Roedd y ffigyrau gwyllo ar gyfer y dydd bron cymaint ag uchafbwyntiau'r hwyr. Gall hyn awgrymu mai cynulleidfa h□n sy'n gwyllo'r

rhaglenni.

- **Cariad@Iaith** - Roedd pobl wedi mwynhau'r gyfres yn fawr ac mae DRh yn meddwl am ffyrdd i ddefnyddio'r enillydd yn ystod y flwyddyn fel cenhadwr i ddysgwyr. Roedd angen ffeindio ongl newydd bob blwyddyn ac awgrymwyd mai cydweithio gyda'r BBC fyddai'r peth gorau o ran cyrraedd cynulleidfa newydd. Eglurodd DRh fod eitemau am y gyfres wedi bod ar sawl rhaglen ar Radio Wales, a hefyd cafwyd llawer o sylw ar Drydar.
- Roedd DRh wedi cyfarfod â'r Asiantaeth Ffilm. Bwriedir cynhyrchu tair ffilm feicro gyda S4C yn eu cyd-ariannu er mwyn rhoi cyfle i dalent newydd.
- Cafwyd trafodaeth am effaith ffilmio ar leoliad ar gymunedau, a chwestiynwyd a yw S4C yn colli'r cyfle i gysylltu yn lleol â'r gwylwyr wrth ffilmio ar leoliad neu mewn digwyddiad. Bydd swyddogion yn ystyried sut i wneud hyn yn y dyfodol.

5. BBC

Cyflwynodd HJ grynodedeb o'r trafodaethau a fu ynghylch cydweithio â'r BBC. Nodwyd y dylai rhestr egwyddorion yr Awdurdod lywio trafodaethau'r swyddogion. Nododd IHJ fod yr Awdurdod a'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno i'r swyddogion edrych ar gydeoli a chydweithredu a bod adroddiad drafft ar y gweill. Cymeradwyodd yr Awdurdod yr egwyddorion sylfaenol a drafodwyd er mwyn rhoi arweiniad clir i swyddogion S4C sy'n trafod gyda swyddogion y BBC.

6. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Cyllid
- Materion Personél
- Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol
- Adroddiad Gwifren